



Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Y Ddyletswydd i Adrodd am Oedolyn Mewn Perygl

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016. Mae'n nodi'r hyn y mae'n rhaid ei wneud i ddiogelu plant ac oedolion.

Dylid gwneud adroddiad pryd bynnag y mae gennych bryderon am oedolyn mewn perygl:

- sy'n profi, neu mewn perygl o brofi camdriniaeth neu esgeulustod,
- sydd ag anghenion gofal a chymorth (boed yr awdurdod yn diwallu unrhyw rai o'r anghenion hynny ai peidio)
- **ac** o ganlyniad i'r anghenion hynny nid ydynt yn gallu amddiffyn eu hunain yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod, neu yn erbyn y perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Mae'r term 'mewn perygl' yn golygu nad oes yn rhaid i gamdriniaeth neu esgeulustod fod wedi digwydd.

Os oes gan unrhyw un wybodaeth, pryderon neu amheuan bod oedolyn yn dioddef, wedi dioddef neu'n debygol o ddioddef camdriniaeth, eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod y pryderon hyn yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu sydd â dyletswyddau statudol a phwerau i wneud ymholiadau ac i ymyrryd os oes angen.

Mae'n rhaid i **bob asiantaeth** adrodd pryderon diogelu yn yr un ffordd â'r rhai hynny sydd â dyletswydd benodol i wneud hynny. Mae hyn yn cynnwys ymarferwyr a gyflogir ac ymarferwyr mewn sefydliadau trydydd sector (mae hyn yn cynnwys: contractwyr ac is-gontractwyr annibynnol, gweithwyr proffesiynol annibynnol a sefydliadau preifat). Dylai gwirfoddolwyr gytuno i gadw at god ymddygiad y sefydliad y maent yn gwirfoddoli iddo.

Diffiniadau

Camdriniaeth: gall fod yn gorfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (yn cynnwys dwyn, twyll, pwysau ariannol, camddefnyddio arian)

Esgeulustod: Mae hyn yn golygu methiant i fodloni anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn a bod hynny'n debygol o amharu ar les yr unigolyn (er enghraifft, amharu ar eu hiechyd).

Gall unigolion hefyd brofi camdriniaeth neu esgeulustod o ganlyniad i'r canlynol:

- Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth Ddomestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Caethwasiaeth Fodern
- Cam-drin domestig a thrais yn erbyn dynion
- Cam-fanteisio troseddol
- Hunan Esgeulustod

Nid oes unrhyw esgus dros beidio â chyflawni'r ddyletswydd i adrodd am oedolyn sydd mewn perygl o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Fodd bynnag mae yna ffactorau goddrychol sy'n gallu dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

- Ofn oherwydd bygythiadau neu fygythiadau posibl gan y teulu neu'r gymuned
- Pryderon y bydd yr atgyfeiriad yn torri ymddiriedaeth
- Dymuniad i gynnal ymreolaeth proffesiynol a rheoli'r sefyllfa
- Ymuniaethu'n ormodol â'r teulu/gofalwyr, gwneud esgusion a/neu gyfiawnhau ymddygiadau camdriniol posibl
- Pryderon na fydd yr adroddiad yn cael ei gymryd o ddifri
- Pryderon y bydd yr adroddiad yn arwain at gryn ofid i'r oedolyn mewn perygl a'r teulu/gofalwyr ond na fydd unrhyw gymorth a chefnogaeth ystyrlon yn cael eu darparu oherwydd diffyg adnoddau
- Normaleiddio math penodol o gamdriniaeth neu esgeulustod oherwydd cyffredinolrwydd sefyllfa benodol e.e. camddefnydd alcohol neu gyffuriau a thrais domestig
- Cred fod yr ymddygiad o bosibl yn dderbyniol mewn crefydd/cred benodol.
- Gor optimistiaeth am sefyllfa – ei weld fel digwyddiad unwaith yn unig
- Amharodrwydd i dderbyn y gall pobl broffesiynol neu'r rhai hynny o grwpiau economaidd-gymdeithasol uwch gyflawni camdriniaeth neu esgeulustod
- Cael sicrwydd gan gamdriniwr eu bod/y byddant yn newid a/neu yn ymgysylltu â'r gwasanaethau

Os bydd gennych unrhyw amheuan, trafodwch nhw gyda'ch Swyddog Diogelu Arweiniol.

Gellir dod o hyd i'r Ffurflen Adrodd Am Bryderon Diogelu Oedolyn [yma](#)

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/>